



Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru

Athrofa Padarn Sant

Mawrth 2020

Y canfyddiadau allweddol

Beirniadaethau QAA am Athrofa Padarn Sant

Rhoddodd tîm adolygu QAA y beirniadaethau canlynol am y ddarpariaeth addysg uwch yn Athrofa Padarn Sant.

- Gellir teimlo hyder bod y safonau academiaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn rhesymol gymaradwy.
- Gellir teimlo hyder bod ansawdd profiad academiaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol.

Y meysydd sydd angen eu datblygu

Canfu'r tîm adolygu'r **maes canlynol sydd angen ei ddatblygu** yn Athrofa Padarn Sant sydd â'r potensial i wella ansawdd a/neu i sicrhau ymhellach bod y safonau academiaidd yn ddibynadwy ac/neu yn gymaradwy. Mae'r tîm adolygu o'r farn y byddai'n fuddiol i Athrofa Padarn Sant:

- sicrhau bod cylchoedd gwaith pwyllgorau'r Athrofa'n cael eu diweddarau i gynnwys ystyried risgiau academiaidd, gan gynnwys cwynion myfyrwyr (y Cod Llywodraethu).

Gwelliannau penodol

Ni nododd y tîm adolygu unrhyw welliannau penodol.

Yr adolygiad hwn

Cynhaliwyd yr ymweliad adolygu rhwng 17 a 18 Mawrth 2020 a chafodd ei weithredu gan dîm o ddau adolygwr, sef:

- Dr John Deane
- Miss Elizabeth Shackels.

Nod cyffredinol Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru yw:

- rhoi barn arbenigol i'r corff cyllido perthnasol am barodrwydd y darparwr i fynd i mewn i'r sector addysg uwch, neu i barhau i weithredu ynddo.

Lluniwyd y broses Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru i:

- sicrhau bod buddiannau'r myfyrwyr yn cael eu diogelu
- roi cyngor arbenigol er mwyn sicrhau bod enw da system addysg uwch y DU yn cael ei ddiogelu, gan gynnwys diogelu safonau graddau
- ganfod meysydd sydd angen eu datblygu a fydd yn helpu'r darparwr i symud ymlaen drwy gyfnod datblygiadol a chael ei ystyried yn ddarparwr 'sefydledig'.

Mae pob adolygiad yn ystyried trefniadau'r darparwr yn erbyn agweddau perthnasol o'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol, ac mae'n ystyried y canlynol yn arbennig:

- dibynadwyedd y safonau graddau a'u gallu rhesymol i gael eu cymharu â'r safonau a osodir ac a gyflawnir gan ddarparwyr eraill
- ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr, gan gynnwys canlyniadau'r myfyrwyr lle mae gan y darparwr hanes o ran darpariaeth addysg uwch.

Ynghylch Athrofa Padarn Sant

Mae Athrofa Padarn Sant yn cyflawni'r angen am integreiddio'r hyfforddiant i'r rheiny sy'n paratoi ar gyfer y Weinidogaeth Leyg a'r rheiny sy'n paratoi ar gyfer y Weinidogaeth Ordeiniedig, p'un a ydynt ar sail breswyl ai peidio, ochr yn ochr â'r hyfforddiant diwinyddol i ddisgyblion mewn amgylcheddau sy'n meithrin yr iaith Gymraeg.

Sefydlwyd Athrofa Padarn Sant gan y tri chorff uwch sy'n cydgysylltu yn yr Eglwys yng Nghymru - Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru, Corff y Cynrychiolwyr, a Mainc yr Esgobion. Sefydlwyd yr Athrofa ar 1 Gorffennaf 2016 o ganlyniad i broses o ystyriaeth ofalus gan yr Eglwys yng Nghymru i bennu'n glir beth fyddai pwrpas y sefydliad, yr anghenion y byddai'n eu diwallu, a beth fyddai ei ddyheadau.

Dyma'r meysydd allweddol o waith yr Athrofa: darparu hyfforddiant ac adnoddau i weinidogion a disgyblion llewg; hyfforddiant a datblygiad i unigolion sy'n mynd i mewn i'r Weinidogaeth Drwyddedig ac i'r rheiny sydd newydd eu trwyddedu; datblygiad parhaus yn y Weinidogaeth; ymchwil ac addysg ôl-raddedig.

Mae gan Athrofa Padarn Sant bartneriaethau gyda dau sefydliad addysg uwch. Mae'r bartneriaeth gyntaf gyda Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) ac mae hon yn gytundeb dilysu ar gyfer darparu'r rhaglen BTh mewn Diwinyddiaeth ar gyfer Disgyblaeth, Gweinidogaeth a Chenhadaeth. Mae'r ail bartneriaeth gyda Phrifysgol Caerdydd ar gyfer darparu ei rhaglenni MTh mewn Diwinyddiaeth a Chaplaniaeth ar etholfraint. Mae staff Athrofa Padarn Sant yn darparu addysgu arbenigol fel Darlithwyr Mygedol ar y rhaglenni.

Mae dros 90% o'r 208 o fyfyrwyr sydd ar y rhaglen BTh yn astudio'n rhan amser. Ar lefelau 4 a 5 mae'r carfannau myfyrwyr llawn amser a myfyrwyr rhan amser yn cael eu gwahanu, yna cânt eu cyfuno eto ar lefel 6 a ddarperir yn bennaf ar y penwythnosau er mwyn ystyried y rheiny sy'n gweithio yn y Weinidogaeth ac mewn galwedigaethau eraill. Mae'r nifer is o fyfyrwyr ôl-raddedig (55 o fyfyrwyr cofrestredig ym mlwyddyn academaidd 2019-20) yn gofrestrdig fel myfyrwyr Prifysgol Caerdydd a chânt eu haddysgu gan staff Athrofa Padarn Sant ar sail fygedol.

Y maes beirniadaeth: Dibynadwyedd y safonau academaidd a'u gallu i gael eu cymharu

Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon (FHEQ) a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)

1 Mae Athrofa Padarn Sant (yr Athrofa) yn gyfrifol am gynnal safonau academaidd ac mae hyn wedi'i amlinellu yn Atodiad A y Memorandwm Cytundeb gyda Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) sy'n disgrifio cyfrifoldebau'r Athrofa a chyfrifoldebau PCYDDS mewn perthynas â Chod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd) a phob agwedd o reoli'r rhaglenni a'u monitro'n flynyddol.

2 Mae gan yr Athrofa Fwrdd Academaidd sydd newydd ei sefydlu i sicrhau bod yr holl brosesau ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd y dyfarniadau prifysgol yn cael eu goruchwylio'n effeithiol. Yn ddiweddar, mae hefyd wedi sefydlu Byrddau ar gyfer PCYDDS a Phrifysgol Caerdydd, sy'n gyfrifol am bob agwedd o safonau ac ansawdd academaidd. Mae Bwrdd Academaidd yr Athrofa'n adrodd i'r Pwyllgor Hyfforddiant, Ffuriant a Datblygiad ar gyfer y Weinidogaeth (Pwyllgor HFfDW) (Cyngor Athrofa Padarn Sant gynt), sef corff cynrychioli'r Eglwys yng Nghymru. Mae gan yr Athrofa bartneriaeth gyda Phrifysgol Caerdydd ar gyfer darparu rhaglen ôl-raddedig. Mae Bwrdd Prifysgol Caerdydd yn rhoi adroddiadau i Fwrdd Academaidd yr Athrofa.

3 Mae'r Athrofa'n dilyn rheoliadau a fframweithiau PCYDDS ar gyfer cymeradwyo ac ail-gymeradwyo rhaglenni. Mae'r Athrofa'n dilyn prosesau adolygu interim a phum mlynedd PCYDDS, ac mae'n dilyn rheoliadau a phrosesau PCYDDS wrth wneud addasiadau a newidiadau mawr i raglenni. Mae'r Athrofa'n dilyn cylchred monitro blynyddol PCYDDS.

4 Mae gan yr Athrofa broses effeithiol o ymsefydlu staff. Yn rhan o'r broses, mae gofyn i'r staff ddefnyddio Llawlyfr Ansawdd Academaidd PCYDDS sy'n amlinellu'r gweithdrefnau a'r prosesau hanfodol y mae'n rhaid eu dilyn. Mae'r Athrofa'n sicrhau bod ei staff yn manteisio ar ystod briodol o weithgareddau datblygiad staff, sy'n sicrhau bod y safonau academaidd yn cael eu cynnal, a chymerodd y staff ran mewn Cynhadledd Partneriaethau Cydweithredol PCYDDS. Mae'r Athrofa'n un o bartneriaid cymeradwy PCYDDS, a ganmolodd y gefnogaeth y mae'r Athrofa'n ei darparu i'w myfyrwyr, a'r ystod eang o gyfleoedd datblygiad staff a ddarperir ganddo. Mae gan Gofrestrydd yr Athrofa berthynas agored ac effeithiol gyda PCYDDS, ac mae'n rhoi'r diweddaraf i'r staff yn rheolaidd. Mae'r Athrofa'n derbyn ymweliad interim ddwywaith y flwyddyn gan Arweinydd Tîm Rhaglen PCYDDS sy'n asesu'r modd y cynhelir safonau academaidd.

5 Cymeradwyir asesiadau yn yr Athrofa ar sail dogfennau PCYDDS drwy ddefnyddio proses safoni fewnol ac arholwyr allanol. Mae'r Athrofa'n gweithredu ei phroses safoni ei hun gan ddefnyddio ffurflen PCYDDS. Mae'r Athrofa'n anfon pob cais am gydnabod dysgu blaenorol (ardystiedig neu brofiadol) at Bwyllgor Dysgu Blaenorol PCYDDS. Mae pob un o'r ceisiadau i'r Pwyllgor hwn wedi bod yn llwyddiannus.

6 Mae'r Athrofa'n gweithio'n agos ag arholwyr allanol fel un dull o brofi'r safonau academaidd, ac mae'n ymateb yn effeithiol i faterion a godir. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol ar gael i'r myfyrwyr yn yr Athrofa ar ei rhith-amgylchedd dysgu. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn cadarnhau safon dda'r gwaith marcio a wnaed a'r adborth a roddwyd i'r myfyrwyr.

7 Mae'r Athrofa'n defnyddio data'n effeithiol wrth gynhyrchu adroddiadau monitro blynyddol i PCYDDS, ac mae'r Athrofa wedi gweithredu mewn ymateb i ddata am gadwraeth myfyrwyr wrth gyflwyno dyfarniadau Tystysgrif a Diploma. Defnyddiwyd data am geisiadau gan fyfyrwyr i ddarparu cymorth effeithiol i fyfyrwyr sydd wedi datgan anabledd, yn ogystal â'r rheiny sy'n dychwelyd i astudio wedi cyfnod sylweddol allan o fyd addysg ffurfiol. Mae'r Athrofa wedi defnyddio data i wella canlyniadau a phrofiadau dysgu'r myfyrwyr sydd ar ddau fodiwl penodol, fel sydd wedi'i ddisgrifio gan yr arholwr allanol.

8 Mae gan yr Athrofa drefniadau sy'n bodloni gofynion ei chyrrff dyfarnu graddau er mwyn sicrhau bod safonau academiaidd y rhaglenni a gynigir yn cwrdd â, neu'n mynd yn uwch na safon trothwy'r DU sydd wedi'i ddisgrifio yn y FHEQ.

9 Mae gan yr Athrofa bartneriaethau gyda dau sefydliad addysg uwch, Prifysgol Caerdydd a PCYDDS (sydd â Memorandwm Cytundeb ers 2016), sy'n cadw'r cyfrifoldeb pennaf am osod a chynnal y safonau academiaidd. Nid oes gan yr Athrofa bwerau dyfarnu graddau ac felly mae'n dibynnu ar PCYDDS, yn arbennig o ran gosod a chynnal safonau academiaidd. Yn ogystal, mae rhestr wirio o Gyfrifoldebau Dosranedig yn disgrifio'r cyfrifoldebau am y safonau academiaidd, ac mae'r llawlyfr ymsefydlu'n cyfeirio at Lawlyfr Academiaidd a Llawlyfr Partneriaeth Gydweithredol PCYDDS.

10 Mae'r Athrofa'n cymryd rhan yn y gwaith o adolygu dyfarniadau presennol cyn iddynt gael eu hail-ddilysu, ac mae cyfle iddo gynnig addasiadau i raglenni. Mae manylebau'r rhaglenni'n adlewyrchu'r FHEQ a'r Datganiadau Meincnodi Pwnc. Dangosodd staff yr Athrofa ddealltwriaeth gadarn o'u pwysigrwydd a'u gweithrediad.

11 Mae'r Athrofa'n cydnabod ei chyfrifoldeb i gynnal safonau drwy asesu, gan gynnwys asesu a yw'r myfyrwyr wedi cyflawni canlyniadau dysgu'r modiwlau sy'n cyfrannu at ddyfarniad. Mae'r cyfrifoldeb am oruchwylio'r prosesau perthnasol ar ysgwyddau'r Bwrdd Academiaidd, ac ar y Grŵp Cyfarfod Busnes a sefydlwyd ar y cyd gyda phob un o'i chyrrff dyfarnu'n benodol i fonitro hyn.

12 Mae arholwyr allanol a benodwyd i bob rhaglen gan y cyrrff dyfarnu'n rhoi sicrwydd bod safonau academiaidd yn cwrdd â'r safon trothwy, eu bod yn briodol ar gyfer lefel yr astudio, a'u bod yn gymaradwy gyda rhaglenni tebyg a ddarperir gan ddarparwyr addysg uwch eraill. Yn y pendraw, rheolir y broses o ddyfarnu credyd gan y cyrrff dyfarnu a'u rheoliadau.

Y cod llywodraethu perthnasol: megis y Cod Llywodraethu Addysg Uwch a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion neu'r Cod Llywodraethu Da i Golegau yn Lloegr gan Gymdeithas y Colegau

13 Mae gan Athrofa Padarn Sant drefnau llywodraethu effeithiol sy'n cynnwys y Pwyllgor Hyfforddiant, Ffuriant a Datblygiad ar gyfer y Weinidogaeth (sy'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn), y Bwrdd Academiaidd (sy'n cyfarfod bob mis) a'r Uwch Dîm Rheoli (sy'n cyfarfod bob wythnos). Bydd aelodaeth bob pwyllgor yn amrywio yn dibynnu ar ei gyloch gwaith, ond mae gan y Pennaeth, uwch reolwyr megis y Cyfarwyddwr Gweithrediadau a'r Cofrestrydd, a'r Arweinwyr Rhaglen rolau penodol o ran monitro'r gwaith a rhoi gwybod i'r llywodraethwyr yn rheolaidd am unrhyw faterion allweddol.

14 Mae'r Bwrdd Academiaidd yn cadw goruchwyliaeth strategol ar y ddarpariaeth addysg uwch, ac mae gan yr Uwch Dîm Rheoli oruchwyliaeth weithredol ar y ddarpariaeth. Mae'r Cofrestrydd yn rhoi cefnogaeth weithredol effeithiol o ddydd i ddydd gyda gwaith megis monitro a darparu'r ddarpariaeth mewn cydweithrediad â'r Deoniaid a'r Arweinwyr Rhaglen perthnasol.

15 Mae'r Athrofa wedi nodi cylchoedd gwaith clir i'w phwyllgorau addysg uwch. Bwydir cofnodion a chymau gweithredu'r Bwrdd Academiaidd ar i fyny i'r Pwyllgor Hyfforddiant, Ffuriant a Datblygiad ar gyfer y Weinidogaeth. Yn ogystal, cefnogir y broses hon gan Gyfarfodydd Busnes gyda Phrifysgol Caerdydd a PCYDDS.

16 Mae trefnau llywodraethu'r Athrofa'n gefnogol o ran parchu rhyddid academiaidd. Hybir egwyddorion rhyddid academiaidd drwy'r Gofrestr o Siaradwyr Gwadd a'r Polisi Datblygiad Staff, sydd wedi'i strwythuro ar sail model o alw ac anghenion penodol. Hybir colegoldeb drwy ddarparu 'amser canolbwyntio', sy'n golygu bod cyfle i'r staff wneud cais am gyfnod o amser i ffwrdd o'u dyletswyddau arferol i ganolbwyntio ar waith ymchwil, er enghraifft ar gyfer gradd PhD.

17 Ar lefel strategol, mae'r Eglwys yng Nghymru wedi llunio cofrestr o risgiau sydd hefyd yn ystyried risgiau gweithredol i Athrofa Padarn Sant. Mae gan yr Athrofa drefniadau i reoli risgiau academaidd sef bod aelodau uwch o'r staff megis y Rheolwr Gweithrediadau'n mynd i gyfarfodydd gyda'r Pwyllgor HFfDW ac hefyd i'w gyfarfod archwilio a rheoli risgiau. O drafodaethau gyda'r uwch reolwyr, roedd hi'n amlwg i'r tîm fod yr Athrofa'n ystyried ac yn adolygu risgiau drwy gydol y flwyddyn academaidd i hysbysu camau gweithredu y bydd angen eu cymryd efallai, megis monitro cyfresi data allweddol, ac ystyried adroddiadau arholwyr allanol, adborth ar lefel cwrs neu fodiwl, a chwynion myfyrwyr. Er bod y cylchoedd gwaith yn gyffredinol gynhwysfawr, nid yw risgiau academaidd wedi'u cynnwys fel eitem sefydlog. O ganlyniad, mae'r tîm adolygu'n argymhell y dylai Athrofa Padarn Sant sicrhau bod cylchoedd gwaith ei phwyllgorau'n cael eu diweddarau i gynnwys ystyried risgiau academaidd, gan gynnwys cwynion myfyrwyr, ac ystyriwyd hyn yn **faes sydd angen ei ddatblygu**.

Disgwyliadau Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

18 Dadansoddir data'n bennaf yng nghyd-destun y broses adolygu flynyddol. Mae'r Athrofa'n darparu data i PCYDDS am gadwraeth, cyflawniad a chynnydd ei myfyrwyr sydd wedi'u meincodi yn erbyn safonau'r sector cyfan. Mae'r Arweinydd Rhaglen a'r Cofrestrydd yn cymryd rhan yn y gwaith o adolygu'r perfformiad academaidd.

19 Mae'n rhaid i aelodau o'r staff a benodir gan yr Athrofa fod â chymwysterau perthnasol sydd un lefel yn uwch na lefel y cyrsiau y maent yn eu haddysgu, ac mae'n ymddangos bod gan y staff gymwysterau da. Ar hyn o bryd, mae gan ddau aelod o'r staff statws Cymrawd yr Academi Addysg Uwch, ac mae pedwar arall yn gweithio tuag at y statws hwn. Mae gan yr Athrofa Bolisi Datblygiad Staff sy'n ateb y galw ac sydd wedi'i alinio â'r Cynllun Gwerthuso Staff. Mae'n ymddangos bod y dull o ddatblygu staff yn hyblyg, ac anogir y staff i fynd i gynadleddau. Hefyd, mae'r Polisi Datblygiad Staff yn caniatáu 'amser canolbwytio' lle gall aelodau o'r staff gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith. Hyrwyddir ac anogir gwaith ymchwil ac addysgu ychwanegol yn gryf iawn, ac anogir y staff drwy'r broses werthuso flynyddol i wella eu sgiliau dysgu ac addysgu. Dywedodd y staff eu bod yn cael eu hannog i weithio mewn grwpiau pwnc neu thematig arbenigol i adeiladu dealltwriaeth o waith ymchwil. Mae pob aelod newydd o staff yn cymryd rhan mewn proses ymsefydlu, a phenodwyd Cyfarwyddwr y rhaglen BTh mewn Diwinyddiaeth ar gyfer Disgyblaeth, Gweinidogaeth a Chenhadaeth yn fentor. Yn ddiweddar, mae'r Athrofa hefyd wedi cyflwyno proses adolygu gan gymheiriaid.

20 Penodir arholwyr allanol gan PCYDDS. Mae'r Swyddfa Partneriaethau'n annog y staff i gymryd rhan ym mywyd y Brifysgol drwy weithgareddau megis cynadleddau a chylchlythyr Partneriaethau Cydweithredol. Roedd y staff yn gallu esbonio'r gyfranogaeth amrywiol rhwng yr Athrofa, PCYDDS a rhanddeiliaid allweddol eraill fel honno yn yr adolygiad diweddar o'r cwricwlwm.

Y feirniadaeth

21 Mae trefniadau sicrhau ansawdd yr Athrofa'n briodol o ran ei galluogi i gyflawni ei chyfrifoldebau tuag at ei chyrrff dyfarnu a'i sefydliadau dyfarnu, ac i alinio â'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol wrth gynnal safonau academaidd.

22 Mae un maes sydd angen ei ddatblygu: dylai cylchoedd gwaith ac agendâu'r pwyllgorau priodol gynnwys ystyried risgiau academaidd, gan gynnwys cwynion myfyrwyr.

23 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad y gellir teimlo hyder bod y safonau academaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn rhesymol gymaradwy.

Y maes beirniadaeth: Ansawdd profiad academiaidd y myfyrwyr

Disgwyliadau Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

24 Mae'r Athrofa'n gyfrifol am reoli a monitro ansawdd profiad academiaidd ei myfyrwyr. Mae'r Llawlyfr Academiaidd a roddir gan PCYDDS yn tynnu sylw at y gofyniad sylfaenol. Mae'r Athrofa, ar y llaw arall, wedi rhoi ystod o fesurau cefnogol yn eu lle i hybu ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr, megis cyfranogaeth y myfyrwyr yng nghyfarfodydd y Pwyllgor HFfDW ac etholiad blynyddol Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr sy'n eistedd ar y Bwrdd Academiaidd. Yn ogystal, cynhelir cyfarfodydd myfyrwyr hefyd yn ystod y penwythnosau preswyl i roi cyfle i'r myfyrwyr godi unrhyw bryderon.

25 Mae'r Athrofa wedi adolygu ei Pholisi Adborth, sy'n cynyddu'r cyfleoedd i'r myfyrwyr ymgysylltu â'u tiwtoriaid erbyn hyn. Ar adeg yr adolygiad, roedd y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr wrthi'n lansio Cylchlythyr i Fyfywyr, ac roedd yr Athrofa wedi cyflwyno mecanwaith yn ddiweddar i roi adborth, dan y teitl 'Dywedoch chi, gwnaethom ni'. Mae gan Athrofa Padarn Sant broses gynhwysfawr sydd wedi'i sefydlu'n dda ar gyfer gwneud gwaith marcio a safoni. Dyrennir tiwtor personol i bob myfyriwr, a sefydlwyd Pwyllgor Ymgynghorol Dysgwyr sy'n cyfarfod bob tymor. Yn ei gyfarfodydd wythnosol, mae'r Uwch Dîm Rheoli'n gweithredu, monitro a thrafod dull yr Athrofa o ymgysylltu â'i myfyrwyr a sut y gellid gwella hwn.

26 Mae llawlyfrau'r modiwlau, sydd ar gael ar y rhith-amgylchedd dysgu, yn amlinellu'r gofynion sy'n ymwneud â'r modiwlau a'r asesiadau, ac maent yn nodi'n glir beth yw eu hamcanion, eu canlyniadau dysgu a'u meini prawf marcio. Mae'r Athrofa wedi cynhyrchu Canllaw Asesu i fyfyrwyr. Yn ogystal, dadansoddir yr holl raddau a marciau gan yr Arweinwyr Rhaglen ac hefyd gan y Cofrestrydd.

27 Mae'r Athrofa'n cydnabod ei bod yn ddarparwr bychan ac y gall fod wedi'i chyfyngu gan ei hadnoddau ei hun. Fodd bynnag, canfu'r tîm adolygu fod yr adnoddau a'r gefnogaeth a ddarperir i'r myfyrwyr yn briodol. Mae myfyrwyr llawn amser a myfyrwyr rhan amser yn derbyn llawlyfr y rhaglen a llawlyfrau ei modiwlau. Mae llawlyfr y rhaglen yn cynnwys gwybodaeth am ystod eang o faterion, er enghraifft ymhle i gael cymorth dysgu, ond mae llawlyfrau ei modiwlau'n darparu gwybodaeth benodol am asesiadau. Hefyd, mae'r Athrofa'n sicrhau bod ystod o adnoddau e-ddysgu ar gael, megis e-lyfrau ac e-gylchgronau, a gall y myfyrwyr ddefnyddio adnoddau ar-lein PCYDDS, Prifysgol Caerdydd a'r Eglwys yng Nghymru. Mae tiwtoriaid ar gael yn ystod diwrnodau seminar i roi unrhyw gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen. Mae'r Ffurflen Dderbyn yn cynnwys adran lle gofynnir i'r myfyrwyr ddatgelu unrhyw anghenion cymorth, a phenodwyd Tiwtor Cymorth Dysgu i asesu anghenion y myfyrwyr a'u cyfeirio at gymorth arall.

28 Mae gwybodaeth am yr Athrofa ar gael ar ei gwefan a'i rhith-amgylchedd dysgu. Mae gan y ddau le yma adran i westeion y gall myfyrwyr fynd i mewn iddynt i gael gwybodaeth cyn iddynt ddechrau eu cyrsiau ac mae'r rhain yn cael eu diweddarau a'u croesgyfeirio â'r broses dderbyn. Mae'r Polisi Derbyniadau'n alinio â rheoliadau PCYDDS ar gyfer derbyn myfyrwyr. Anogir y myfyrwyr i gwblhau'r modiwl ymsefydlu rhad ac am ddim cyn iddynt ddechrau eu hastudiaethau. Daw'r myfyrwyr o amrediad o gefndiroedd ac mae'r rhaglenni'n cael eu marchnata drwy sioeau teithiol, drwy bobl yn siarad â'i gilydd a thrwy i eglwysi lleol gyfeirio pobl atynt. Ar ôl pob cyfnod recriwtio, adolygir y wefan i sicrhau bod yr wybodaeth sydd ar gael arni'n gywir ac yn ddibynadwy. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau'n gyfrifol am oruchwylio'r broses hon.

Y cod llywodraethu perthnasol

29 Mae gan yr Athrofa drefnau llywodraethu effeithiol ar gyfer myfyrwyr. Cynrychiolir y myfyrwyr ar y Pwyllgor HFfDW, fel sydd wedi'i nodi yn ei gylch gwaith. Y Pwyllgor HFfDW yw'r prif is-bwyllgor i Gorff y Cynrychiolwyr. Y Pwyllgor HFfDW yw'r corff trosfwaol sy'n goruchwyllo gweithrediadau'r Athrofa ac mae'n derbyn adroddiadau ffurfiol gan y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Mae problemau myfyrwyr yn rhan ffurfiol o agenda'r Pwyllgor HFfDW. Etholir cynrychiolwyr y myfyrwyr, ac mae yna Brif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Caiff cynrychiolwyr y myfyrwyr eu hymsefydlu yn eu swyddi, ac maent yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn yn ystod y penwythnosau preswyl. Mae'r Athrofa'n cynhyrchu adroddiadau chwarterol am adborth gan fyfyrwyr, a chânt eu trafod gan y Pwyllgor HFfDW. Cynrychiolir y myfyrwyr ar y Bwrdd Academaidd, Bwrdd PCYDDS a Bwrdd Prifysgol Caerdydd.

30 Mae gan yr Athrofa Bolisi Cwynion ffurfiol ar gyfer materion anacademaidd, a Gweithdrefn a Pholisi Apeliadau Academaidd. Nid yw cylch gwaith pwyllgor goruchwyllo'r Athrofa, sef y Pwyllgor HFfDW, yn nodi'n benodol ei fod yn derbyn adroddiadau am gwynion y myfyrwyr. Nid yw cylch gwaith y Pwyllgor HFfDW yn nodi bod y Pwyllgor yn derbyn diweddariadau ac adroddiadau ffurfiol am gwynion a materion diogelu, er y soniwyd am hyn yn y Ddogfen Hunanwerthusiad. Ni sonnir bod Bwrdd Academaidd yr Athrofa, Bwrdd PCYDDS a Bwrdd Prifysgol Caerdydd yn goruchwyllo cwynion myfyrwyr nac yn derbyn adroddiadau am gwynion y myfyrwyr.

31 Ymdrinnir â chwynion gan fyfyrwyr yn rhan o gylchred monitro blynyddol yr Athrofa. Weithiau, mae materion diogelu myfyrwyr ar agenda'r Pwyllgor HFfDW, ond nid ydynt yn eitem sefydlog. Trafodir y gwersi a ddysgir o gwynion yn y Cyfarfod Arweinwyr Uwch Timau. Nid yw'n eglur sut y bydd yn dod ag adroddiadau am gwynion i sylw'r Pwyllgor HFfDW. Nid oes unrhyw dystiolaeth yn strwythurau pwyllgorau goruchwyllo'r Athrofa (Pwyllgor HFfDW, Bwrdd Academaidd neu Gyfarfodydd Busnes) i ddangos bod ganddi oruchwyliaeth ffurfiol ar gwynion. Mae'r mater hwn yn derbyn sylw yn y maes sydd angen ei ddatblygu, o dan y safonau academaidd â'r cod llywodraethu (gwelwch baragraff 17). Ar adeg yr adolygiad, ni chyfeiriwyd unrhyw gwynion ffurfiol i'r pwyllgorau. Dywedodd y myfyrwyr hynny y cyfarfu'r tîm â nhw fod staff o'r Athrofa'n ymdrin ag unrhyw broblemau'n effeithlon ac yn foddhaol, ac nad oeddent wedi cael unrhyw achos i ddefnyddio'r drefn gwyno ffurfiol. Ond, mae'r tîm yn ystyried y canlynol yn **faes sydd angen ei ddatblygu**: dylai'r Athrofa sicrhau bod cychoedd gwaith ei phwyllgorau'n cael eu diweddaru i gynnwys ystyried risgiau academaidd, gan gynnwys cwynion myfyrwyr.

Y polisiau a'r gweithdrefnau sydd yn eu lle i sicrhau bod y dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth diogelu defnyddwyr yn cael eu cyflawni (cyfarwyddyd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd)

32 Mae gwybodaeth am broses ymgeisio'r Athrofa, ei rhaglenni a'r ffioedd ar gael ar ei gwefan. Mae'r Athrofa'n gweithredu Modiwl Cyflwyno newydd o wyth sesiwn sy'n amlinellu pob agwedd o'r profiad o fod yn fyfyrwr yn yr Athrofa, ac sy'n rhoi gwybodaeth am y rhaglenni. Darperir hyn cyn i fyfyrwyr wneud cais. Mae gan yr Athrofa Bolisi Derbyniadau ffurfiol sydd wedi'i gyhoeddi ar ei gwefan a'i rhith-amgylchedd dysgu. Darperir gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr drwy sioeau teithiol a gynhelir ledled Cymru. Cyflwynwyd y rhain yn 2019 a chânt eu hyrwyddo drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac ar wefan yr Athrofa, fel y disgrifiwyd yng nghyflwyniad y myfyrwyr.

33 Unwaith y bydd myfyrwyr wedi cofrestru, bydd yr Arweinydd Rhaglen yn anfon llythyr a Contract Dysgwyr atynt sy'n esbonio'r hyn a ddisgwylir ganddynt a'r hyn y gallent ei ddisgwyl gan yr Athrofa, ynghyd â Thelerau ac Amodau clir. Gofynnir i bob darpar fyfyrwr lofnodi a dychwelyd y Contract Dysgwyr cyn iddynt gael eu cofrestru'n ffurfiol ar raglen PCYDDS.

34 Mae Polisi Cwynion Anacademaidd yr Athrofa, a'i Pholisi Apeliadau Academaidd, sydd wedi'u cymeradwyo gan PCYDDS, yn disgrifio prosesau ar gyfer ymdrin â chwynion sy'n hygyrch, yn eglur ac yn deg. Datblygwyd y polisi yn unol ag arferion gorau Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

Y trefniadau diogelu myfyrwyr

35 Mae gan yr Athrofa ddatganiad diogelu myfyrwyr byr sy'n nodi strategaethau'r Athrofa ar gyfer diogelu myfyrwyr os bydd cyrsiau'n cael eu cau neu eu newid yn sylweddol. Mae'r Athrofa'n dilyn gweithdrefnau PCYDDS ar gyfer gwneud addasiadau bychain i'r rhaglen neu ei modiwlau. Cynhwyswyd myfyrwyr yn y broses o adolygu'r cwricwlwm yn 2019.

36 Mae Contract Dysgwyr yr Athrofa'n cynnwys polisïau a phrosesau ar gyfer gwneud newidiadau i raglenni, gan gynnwys ar gyfer cau cyrsiau. Mae gan yr Athrofa broses glir ar gyfer rhoi gwybod i'r myfyrwyr am unrhyw newidiadau i raglenni. Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybod iddyn nhw drwy'r rhith-amgylchedd dysgu, cyfarfodydd adolygu ac adborth am fodiwlau. Os bydd cwrs yn cael ei gau, mae'r Memorandwm Cytundeb yn amlinellu cyfrifoldebau penodol yr Athrofa a'r Brifysgol - hynny yw, am sicrhau bod y rhaglen yn cael ei 'haddysgu allan'. Mae'r cytundeb rhwng yr Athrofa a PCYDDS yn nodi trefniadau 'addysgu allan' ar gyfer myfyrwyr, ond nid oedd y myfyrwyr yn ymwybodol o'r trefniadau 'addysgu allan' hyn am nad oedd unrhyw gyrsiau wedi cael eu cau.

37 Adolygir y prosesau cwyno bob tair blynedd, ac mae'r Athrofa wedi datblygu Polisi Cwynion Anacademaidd ac hefyd Bolisi Apeliadau Academaidd. Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi adolygu'r rhain ac wedi'u hasesu'n addas i'w pwrpas, ac maent wedi'u halinio â phrosesau PCYDDS. Mae'r holl brosesau ar gyfer ymdrin â chwynion yn cyfateb â pholisi o degwch a chyfrinachedd. Mae'r Athrofa'n ystyried cwynion yn gyfle i hybu gwelliant drwy ddatblygu ei staff. Ond, nid yw goruchwyliaeth yr Athrofa ar gwynion wedi'i ffurfioli yn ei phwyllgorau llywodraethu allweddol: Pwyllgor HFfDW, Bwrdd Academaidd a Chyfarfodydd Busnes. Mae'r mater hwn yn derbyn sylw yn y maes sydd angen ei ddatblygu, o dan y safonau academaidd â'r cod llywodraethu (gwelwch baragraff 17).

Y feirniadaeth

38 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad y gellir teimlo hyder bod ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol.

Sylwadau am gydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith Gymraeg

39 Nid oes gan yr Athrofa ddyletswydd i gydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg. Ond, gall pob rhaglen gefnogi myfyrwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd, ac mae holl ffurflenni'r Athrofa ar gael yn y ddwy iaith. Mae'r Athrofa'n hybu ethos iaith Gymraeg drwy warantu y bydd gwaith y myfyrwyr yn cael ei asesu a'i farcio yn yr iaith wreiddiol, ac mae'r Datganiad o Gyfraniad er Budd y Cyhoedd yn adlewyrchu ymrwymiad yr Athrofa. Mae'r Athrofa'n ymwreiddio'r Safonau Iaith Gymraeg yn ei darpariaeth ac yn darparu ar gyfer myfyrwyr sydd eisiau ei defnyddio. Cefnogir hyn yn llawn gan uwch reolwyr, staff a myfyrwyr yr Athrofa a oedd yn llawn canmoliaeth am yr agwedd a gymerir gan Athrofa Padarn Sant.

40 Mae'r prosesau o recriwtio a dethol darlithwyr yn dangos erbyn hyn yr ystyrir y gallu i siarad Cymraeg yn un o'r meini prawf hanfodol ar gyfer rhai rolau ac, ar gyfer yr holl rolau eraill lle gweithir gyda'r myfyrwyr yn yr Athrofa, mae'r gallu i siarad Cymraeg yn un o'r meini prawf manteisiol. Penodwyd Deon Hyfforddiant Cychwynnol Gweinidogion a hi yw'r gyntaf i fod â chefnidir dwyieithog.

41 Mae prosesau ymsefydlu'r Athrofa'n rhoi gwybod i'r myfyrwyr am y cyfleoedd Cymraeg sydd ar gael, yn ogystal â'r aelodau hynny o staff sy'n siarad Cymraeg. Nid oedd y myfyrwyr hynny y cyfarfu'r tîm â nhw wedi gofyn am unrhyw ddeunyddiau Cymraeg, nac am gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

QAA2541 - R10956 - Mehefin 20

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2020
Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557000
Gwefan: www.qaa.ac.uk